
# Adolygiad Blynyddol Anabledd Dysgu Cymru Ebrill 2019 i Fawrth 2020



**Rydym am i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi**

**Dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant a digwyddiadau, Senedd Ieuenctid Cymru, cariad a pherthnasoedd, cefnogi rhieni ag anabledd dysgu, a llawer mwy**

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys



| | |
|---|---|
| Negeseuon croeso | 3 |
| Bywydau Gwerthfawr | 5 |
| Hysbysu | 6 |
| Hawdd Ei Ddeall Cymru | 7 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | 8 |
| Engage to Change | 10 |
| Herio a chynrychioli | 12 |
| Ffrindiau Gigiau | 16 |
| Bywydau Caru | 17 |
| Senedd Ieuenctid Cymru | 18 |
| Gweithio Gyda'n Gilydd gyda Rhieni | 18 |
| Ein hymddiriedolwyr, aelodau a staff | 19 |
| Sut y gwnaethom wario ein harian | 21 |













**Rydym am i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi**

## Cadw mewn cysylltiad

Anabledd Dysgu Cymru, 41 Lambourne Crescent,
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GG
Ffôn: 029 2068 1160 www.ldw.org.uk

Cwmni Cyfyngedig drwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestredig TAW: 762 4559 11

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

enquiries@ldw.org.uk
/anabledddysgucymraeg
@LdWales



# Neges groeso

## gan ein Cadeirydd, Phil Madden

Sôn am flwyddyn. Mae Covid 19 wedi newid popeth i bob un ohonom. Wrth i mi ysgrifennu, rydym yn parhau i fod yn ansicr iawn ynghylch beth fydd y dyfodol agos ac yn wir yn y tymor hwy.

Mae peryglon iechyd uniongyrchol o'r feirws ei hun, yn enwedig i'r rhai sy'n agored i niwed. Yna mae'r costau anuniongyrchol. Gwasanaethau iechyd ar gyfer cyflyrau iechyd eraill wedi'u canslo neu eu gohirio, ffyrlo a diweithdra cynyddol a phwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r angen yn fwy nag erioed i gefnogi, cynnwys a grymuso pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn ffodus iawn ac yn freintiedig o gael y staff sydd ganddo, dan arweiniad Zoe Richards, a gadarnhawyd fel Prif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2019. Maen nhw wedi bod yn hynod greadigol yn y ffordd maen nhw wedi ymateb i'r heriau o weithio'n wahanol. Cefnogwyd y staff gan Fwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig a galluog.

Yr hyn nad yw wedi newid yw ein gwerthoedd a'n hymrwymiad, fel sy'n cael eu disgrifio yn ein Cynllun Strategol.

Rydym hefyd wedi cael cefnogaeth wych gan ein partneriaid a'n haelodau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei chyllid ar gyfer ein prosiect Pobl yr 21ain Ganrif fel rhan o'r grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn greadigol gydweithredol wrth ein helpu i barhau i gyflawni Engage to Change. Rydym wedi ymestyn y rhaglen Ffrindiau Gigiau gyda chyllid gan First Choice Housing a phrosiect Trawsnewid Gogledd Cymru ac yn ddiweddar fe wnaethom lwyddo i gefnogi prosiect Ymchwil y DU a fydd yn edrych ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Fforwm Cymru Gyfan, Mencap Cymru, Cymdeithas Syndrom Down a Cymorth Cymru fel rhan o'r Consortiwm Anabledd Dysgu a hefyd gydag Anabledd Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar fel rhan o Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru.

Yn fwy nag erioed, bydd angen i ni hefyd weithio mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach. Mae geiriau newydd yn yr iaith: gweithio o bell, ynysu, cadw pellter cymdeithasol, ac yn y blaen. Yr hyn y byddwn ni ei angen yw ffyrdd newydd o fod mewn cysylltiad â'n gilydd a rhannu ein dynoliaeth gyffredin.



# Neges groeso

## gan ein Prif Weithredwr, Zoe Richards

Yn hanesyddol, mae cynhyrchu'r adroddiad blynyddol wedi bod yn amser i eistedd yn ôl ac ystyried ein cyflawniadau yn ystod y flwyddyn. Cyfle i amlygu darnau allweddol o waith sydd wedi cyfrannu at gefnogi ein nodau o weithio i sicrhau y gall Cymru ddod y lle gorau i fyw, gweithio a dysgu i blant ac oedolion sydd ag anabledd dysgu.

Y tro hwn mae'n wahanol. Mae gennym farciwr bywyd clir cyn y pandemig a'r hyn rydyn ni'n ei adnabod fel bywyd yn ystod y pandemig. (Rydym yn brysur yn cyd-greu sut olwg fydd ar fywyd ar ôl y pandemig, ond mae hynny ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf).

Mae ein hadroddiad yn edrych yn ôl ar fywyd a allai ymddangos ychydig yn anghyfarwydd i ni ar hyn o bryd ond mae'n bwysig dal y gwaith da, y partneriaethau a grëwyd a'r addewidion a wnaethom yn ystod 2019/20.

Daeth ein prosiect Bywydau Gwerthfawr i ben eleni ac fe wnaeth ein gwaith yn ystod y prosiect hwnnw, ynghyd ag Engage to Change, LoveLife, Gweithio Gyda'n Gilydd gyda Rhieni, Ffrindiau Gigiau a phrosiectau eraill, sicrhau ein bod mewn lle da i feddwl am ein strategaeth am y pum mlynedd nesaf a'i chreu. Roedd yn amser gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddarganfod beth oedd yn bwysig a pha nodau yr oedd angen i ni eu gosod ar gyfer y sefydliad.

Ym mis Tachwedd 2019 lansiwyd y strategaeth yn ein cynadleddau yn Llanwrst a Chasnewydd. Roedd rhai o'r addewidion yn y strategaeth yn cynnwys gweithio'n agosach gyda chymunedau ledled Cymru, sicrhau gweithlu mwy amrywiol yn Anabledd Dysgu Cymru, a chysylltu â phobl i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan ein haelodaeth. Ni fydd yr addewidion hyn yn newid, ac rydym yn gwneud cynnydd da tuag at y nodau rydyn ni wedi'u nodi.

Wrth i'r flwyddyn ddod i ben ac wrth i ni baratoi i lansio Pobl yr 21ain Ganrif (prosiect newydd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru), rydym wedi camu i mewn i fyd newydd yr ydym yn llywio ein ffordd drwyddo. Yn fwy nag erioed, ein partneriaethau a'n perthynas â phobl yw'r sbardun i wneud i newid da ddigwydd ac edrychwn ymlaen at sicrhau bod bywydau plant ac oedolion ag anabledd dysgu yn llawn.



# Bywydau Gwerthfawr

Bywyd Gwerthfawr
Valued Lives

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Hon oedd blwyddyn olaf ein prosiect Bywydau Gwerthfawr. Buom yn gweithio dros dair blynedd i gefnogi gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Myfyrio ar ein gwaith:

**Hysbysu:** Rydym wedi addasu i'r oes ddigidol drwy ddisodli ein cylchgrawn Llais gyda fersiwn digidol, tra'n parhau i ddatblygu presenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol. Er hynny, mae'n dal i fod yn her i gyrraedd pawb gan nad yw llawer ohonynt wedi'u cysylltu'n ddigidol o hyd. Roeddem yn falch o'n cyflawniadau wrth gynhyrchu dogfennau hawdd eu deall i lawer o sefydliadau gan sicrhau bod gan bobl wybodaeth yn y ffordd y gallant ei darllen a'i deall.

**Hyfforddiant:** Rydym wedi hyfforddi pobl ag anabledd dysgu i fod yn hyfforddwyr ac wedi hyfforddi ar hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, a hawliau i asesu. Gan weithio gyda sefydliadau eraill, fe wnaethom gynnal digwyddiadau ar leihau arferion cyfyngol gyda phlant ac arferion comisiynu blaengar. Mae ein cynadleddau blynyddol wedi tyfu o ran maint a chynwysoldeb, lle mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu gweld a'u



gwerthfawrogi fel cyfranwyr fel arbenigwyr o'u profiadau byw.

**Cynrychioli a Herio:** Weithiau nid yw gwelliant yn cael ei weld yn gyflym ond mae parhau i gynrychioli a herio yn allweddol. Rydym wedi gweithio i lobïo am arweiniad i rieni ag anabledd dysgu, ac rydym yn falch y bydd hyn yn cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru nawr. Fel sefydliad partner ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru rydym wedi cefnogi dau berson ifanc i gynrychioli lleisiau pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.

**Arloesi:** rydym wedi bod wrth ein bodd gyda thwf ein prosiect Ffrindiau Gigiau sydd wedi paru 20 o bobl ag anabledd dysgu gyda gwirfoddolwr yng Nghaerdydd. Mae hyn wedi arwain at ehangu i Rondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg.

# Hysbysu




Mae ein tîm cyfathrebu yn gweithio i sicrhau bod gennych lais cryfach a gwybodus.

Ein rôl ni yw gwneud synnwyr o'r wybodaeth a'r newyddion sydd weithiau'n ysgubol am faterion anabledd dysgu a gawn bob dydd, a sicrhau ei fod ar gael i chi mewn ffordd glir a hygyrch.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y wybodaeth bwysicaf ar gael mewn fersiwn hawdd ei deall a gweithio ochr yn ochr â'n tîm hawdd ei deall i wneud hyn yn bosibl.

Rydym yn defnyddio ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr digidol i'ch diweddaru'n ddyddiol gyda'r newyddion, polisi, adnoddau a digwyddiadau diweddaraf. Ac rydym yn cefnogi ein tîm digwyddiadau a'n swyddog polisi gyda digwyddiadau ymgynghori, hyfforddiant a seminarau sy'n llywio ac yn ymgynghori ar bolisi ac arfer da newydd.

Rydym hefyd yn derbyn ymholiadau gwybodaeth rheolaidd am faterion anabledd dysgu, gan ateb gyda'r hyn y gallwn ei wneud, a chyfeirio pobl at gyngor arbenigol.

Rydym bob amser yn awyddus i glywed eich barn ar sut rydym yn cyfathrebu â chi. Felly cofiwch gysylltu ag unrhyw adborth neu syniadau sydd gennych chi.

## Addasu'n gyflym i'r pandemig

Ym mis Mawrth fe wnaeth Anabledd Dysgu Cymru addasu i anghenion y pandemig drwy newid ein holl waith yn ganolfan gyfathrebu a gwybodaeth hawdd ei deall dros dro.

Gydag ychydig o ddealltwriaeth ar gael ymhlith y cyhoedd ar y pryd, a llawer o wybodaeth anghywir ar gael, buom yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael yn gyflym i bobl ag anabledd dysgu.

Crëwyd adran bwrpasol ar ein gwefan am coronafeirws i bobl ag anabledd dysgu, oedd yn cael ei diweddaru'n ddyddiol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf hawdd ei deall.
**www.ldw.org.uk/project/coronavirus**



# Hawdd Ei Ddeall Cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales




Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, cynhyrchodd ein gwasanaeth hawdd ei ddeall 79 o ddogfennau ar gyfer 30 o gleientiaid gwahanol.

Rydym wedi bod yn hynod o brysur yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector, busnesau ac unigolion i helpu pobl i gael gwybodaeth bwysig mewn ffordd y gallent ei deall.

Mae'r gwasanaeth yn tyfu bob blwyddyn, ac eleni fe wnaethom lwyddo i gynyddu oriau staff a chael un aelod newydd o staff – Rebecca Chan. Aeth Becky at ei gwaith yn ddiymdroi a gwnaeth gyfraniad enfawr i'r gwasanaeth. O fewn ei blwyddyn gyntaf gyda ni, symudodd Becky i'r Alban gyda'i gŵr, ac ar ôl cyfnod byr o weithio o bell o'i chartref newydd, symudodd Becky ymlaen i swydd newydd yn rhedeg gweithdai fideo i bobl ag anabledd dysgu.

Fe wnaethom barhau i gefnogi eraill i wneud eu gwybodaeth eu hunain yn hawdd i'w darllen a'i deall, drwy ddarparu cyrsiau hyfforddi, hyrwyddo ein canllawiau a'n hadnoddau rhad ac am ddim, a chynnig cyngor a chymorth. Gallwch weld rhai o'n dogfennau ac adnoddau rhad ac am ddim ar ein gwefan: **www.ldw.org.uk/easy-read-wales/**

## Covid-19: Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt

Ym mis Mawrth addasodd y tîm hawdd ei ddeall yn gyflym i'r pandemig a dechreuodd gynhyrchu canllawiau hawdd eu deall yn rheolaidd, gan gynnwys y canllaw hawdd ei ddeall cyntaf ar gyfer Zoom.

Ochr yn ochr â thîm cyfathrebu Anabledd Dysgu Cymru buom yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael i bobl ag anabledd dysgu wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

# Hyfforddiant a digwyddiadau

Edrychodd ein Cynhadledd Flynyddol Yn Y Fan Hyn ar bobl ag anabledd dysgu yn cael eu gweld, eu clywed, eu gwerthfawrogi, a'u cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd.

Ymunodd 290 o bobl â ni ar gyfer y gynhadledd a gynhaliwyd am 2 ddiwrnod, y diwrnod cyntaf yn Ne Cymru Casnewydd a'r ail ddiwrnod yn Llanrwst, Gogledd Cymru.

Roedd y gynhadledd, fel arfer, yn ddigwyddiad bywiog a chynhwysol a oedd yn cynnwys gweithdai, ffilmiau a chyflwyniadau ar sut mae pobl ag anabledd dysgu yn gwneud eu marc mewn gwaith, bywydau cymunedol, gwleidyddiaeth a mwy.







## Cymorth i fyw yn yr 21ain Ganrif

Cynhaliwyd digwyddiadau yng Ngogledd a De Cymru yn dangos sut mae pobl ag anabledd dysgu a sefydliadau sy'n eu cefnogi yn defnyddio technoleg i roi dewis, llais a rheolaeth i bobl yn eu bywydau.

## Beth sy'n Bwysig i Mi

Fe wnaethom hyfforddi pobl ag anabledd dysgu i fod yn hyfforddwyr ar eu hawliau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yna roedden nhw'n mynd ymlaen i ddweud wrth bobl eraill ag anabledd dysgu am eu hawliau.

## Hyfforddiant

Rydym yn darparu hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, a phobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Cynhaliwyd cyrsiau ar bynciau gan gynnwys Awtistiaeth, Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, Gwneud Gwybodaeth yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall, Iselder, Gorbryder a Phobl ag Anabledd Dysgu, Ymgysylltu hygyrch, Lles yn y Gweithle, a mwy.



# Engage to Change

engagetochange.org.uk
/engagetochangewales
@Engage_2_Change

**Ym mhedwaredd flwyddyn y prosiect, dechreuodd 80 o bobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth gyflogaeth â thâl, gan ddatblygu eu sgiliau, eu profiad a'u hyder. Aeth 65 o bobl ifanc ymlaen i gadw eu swyddi am 13 wythnos neu fwy.**

Tyfodd nifer y rhaglenni interniaethau a gefnogir gan Engage to Change o 3 i 6 eleni. Dechreuodd 53 o bobl ifanc interniaethau, gan ddysgu sgiliau newydd drwy hyfforddiant ymarferol a chael y cyfle i roi cynnig ar wahanol swyddi.

Cynhaliwyd digwyddiadau sioe deithiol i hyrwyddo Engage to Change yng Nglynebwy, Caerfyrddin a Wrecsam. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys cyflwyniadau gan bobl ifanc a chyflogwyr am eu profiad o'r prosiect. Bu'n rhaid canslo digwyddiad arall a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth oherwydd pandemig y coronafeirws, a gwnaed cynlluniau i gynnal y digwyddiad ar-lein ym mis Mehefin 2020 yn lle hynny.

Ym mis Rhagfyr fe wnaethom lansio papur briffio yn ein Digwyddiad Rhanddeiliaid cyntaf am yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'r prosiect hyd yma. Mynychwyd y digwyddiad yng Nghaerdydd gan nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru o adrannau perthnasol. Mae ein gwaith polisi wedi cynyddu





eleni gyda'r nod o ddylanwadu ar bolisi cyflogaeth ledled Cymru ar gyfer pobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Roedd hyn yn cynnwys gweithio ar gynllun Engage to Change ar gyfer Gwasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol gyda'r nod o gyhoeddi papur yn haf 2020.





## Stori Billie



Drwy waith caled, ymroddiad ac amgylchedd cefnogol, mae Billie wedi gallu goresgyn ei rhwystrau i weithio. Mae hi bellach mewn cyflogaeth amser llawn yng Nghartref Gofal Springholme yn Ynys Môn, lle mae ei chydweithwyr wrth eu bodd gyda'r hyn mae Billie wedi'i gyflwyno i'r tîm. Cafodd Billie gefnogaeth hyfforddwr swyddi gan Agoriad Cyf drwy'r prosiect Engage to Change. Gallwch wylio fideo Billie yma:

**http://www.engagetochange.org.uk/article/billie-at-springholme-care-home/.**

# Herio a chynrychioli

Buom yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill ac o fewn ein grwpiau ein hunain gyda'r nod o ddod â newid cadarnhaol i fywydau pobl ag anabledd dysgu a'r bobl a'r sefydliadau o'u cwmpas.

## Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

Fe wnaethom barhau i hwyluso'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd ystod eang o bobl anabl a materion cydraddoldeb gyda'r nod o sicrhau newid cadarnhaol. Cynhaliwyd tri chyfarfod, gyda dau ohonynt ar y cyd â'r grŵp ar drais yn erbyn menywod a phlant a'r llall ar awtistiaeth. Y materion a drafodwyd oedd Grant Byw'n Annibynnol Cymru a chynllun Llywodraeth Cymru ar fyw'n annibynnol. Roedd cyfanswm o 107 o bobl yn bresennol. Cynhaliwyd un cyfarfod yng Ngogledd Cymru.




## Gweithio gydag eraill

Rydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill ar y grwpiau canlynol:

- **Grŵp Byw â Chymorth Cymorth Cymru**, grŵp gyda darparwyr byw â chymorth i edrych ar faterion comisiynu a darparwyr.
- **Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector**, cydweithio i sicrhau bod y Ddeddf a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn diwallu anghenion pobl ifanc ag anabledd dysgu.
- **Consortiwm Anabledd Dysgu**, cydweithio â Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan a Mencap Cymru.
- **Grŵp Cynghori'r Gweinidog Anabledd Dysgu**, grŵp sy'n rhoi cyngor i'r Gweinidog. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar eu rhaglen Gwella Bywydau.
- **Fforwm Cydraddoldeb Anabledd**, grŵp o sefydliadau trydydd sector ar draws maes anabledd sy'n cydweithio â Llywodraeth Cymru.
- **Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru**, grŵp o sefydliadau trydydd sector ar draws maes anabledd
- **Y Cyngor ar gyfer Plant Anabl (DU)** – cysylltu polisi'r DU â pholisi Cymru a dysgu ar y cyd a rhannu arfer da.






## Ymatebion i ymgynghoriadau

Rydym wedi cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau:

- **Adolygiad Tlodi Plant Llywodraeth Cymru** - fe wnaethom ddweud bod angen cymorth arbenigol ar deuluoedd â phlant neu rieni anabl gan eu bod yn llawer mwy tebygol o fod yn dlawd na theuluoedd eraill
- **Llywodraeth Cymru: Lwfans Myfyrwyr Anabl** – Gyda'r prosiect **Engage to Change**, fe wnaethom ddadlau dros gymorth mwy unigol a hyblyg i fyfyrwyr anabl.





Rydym yn rhannu'r holl ymgynghoriadau perthnasol drwy ein sianeli cyfathrebu ac yn sicrhau bod y fersiynau hawdd eu deall ar gael ac yn cael eu rhannu'n eang. Rydym yn paratoi nifer o'r rhain drwy ein gwasanaeth cyfieithu Hawdd ei Ddeall.

## Erthyglau polisi

Mae gennym erthyglau ysgrifenedig ar ystod eang o feysydd polisi:

- Gwell cefnogaeth i rieni ag anabledd dysgu
- Lleihau unigedd cymdeithasol
- Arosiadau tymor hir mewn ysbytai
- Eiriolwyr annibynnol
- Cefnogi ymgyrch Dim Amser Gwely Aros i Fyny'n Hwyr
- Effaith gwleidyddiaeth llymder ar bobl anabl
- Ariannu gofal cymdeithasol
- Newid yn yr hinsawdd ac anabledd
- Hawl pobl ag anabledd dysgu i berthnasoedd a rhyw
- Lleihau arferion cyfyngol
- Ysbytai Arosiadau Hir,
- Adran Gwaith a Phensiynau a hawliau dynol
- Grant Byw'n Annibynnol Cymru
- Y Bil Galluedd Meddyliol (Diwygiad).
- Safbwyntiau polisi ar fynediad i driniaeth ar gyfer Coronafeirws

## Dylanwadu ar bleidiau gwleidyddol

Fe wnaethom gynhyrchu papur briffio ar ein safbwyntiau polisi ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Fe fuom yn gweithio'n agos gyda grŵp polisi conffederasiwn GIG Cymru. Fe wnaethom gyfrannu at ymgynghoriadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i Gymru, lleihau tlodi a thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Cymuned Ymarfer Technoleg Bersonol

All Wales personalised technology
community of practice

Rydym am i bobl ag anabledd dysgu gael technoleg bersonol fel y gallant fyw bywydau annibynnol, iach, cysylltiedig a diogel. Gyda dros 60 o sefydliadau a phobl â diddordeb mewn gwaith o amgylch yr agenda hon, fe wnaethom ehangu ein cyfarfodydd a sefydlu Cymuned Ymarfer Technoleg Bersonol Cymru Gyfan. Cynhaliwyd tri chyfarfod rhwydwaith. Arweiniodd hyn at gasglu straeon arfer da, ysgrifennu fframwaith moesegol a chynnal dau ddigwyddiad.

# Cystadleuaeth ffotograffiaeth



Cynhaliwyd ein hail gystadleuaeth ffotograffiaeth gyda Able Radio. Eleni cawsom 40 o geisiadau gwych i ddewis ohonynt. Croesawyd Tristan Lewis, enillydd cyffredinol y llynedd, i fod yn feirniad gwadd. Cyhoeddwyd yr enillwyr yn ein cynhadledd flynyddol, Yn y Fan Hyn.




**↑ Bobbyjo Fyfe – Enillydd cyffredinol**



**↑ Glynis Northcote – Mwyaf tebygol o wneud i rywun wenu**

**Joanne Nash → – Cyfansoddiad gorau**



# Gig Buddies / Ffrindiau Gigiau

**Mae Ffrindiau Gigiau yn paru oedolion ag anabledd dysgu gyda gwirfoddolwyr sy'n rhannu'r un diddordebau fel y gallant fynd i gigiau a digwyddiadau gyda'i gilydd.**

Gall gig fod yn gyngerdd, sioe gerdd, digwyddiad chwaraeon, digwyddiad cerdded – beth bynnag yw eich 'gig'.

Cynhaliwyd lansiad poblogaidd ar gyfer yr ail flwyddyn mewn lleoliad poblogaidd yng Nghanol Dinas Caerdydd lle clywodd y gynulleidfa gan y cyllidwr, cynrychiolwyr y prosiect, cerddorion a'r rhai sydd wedi elwa o'r prosiect hyd yma.

Yn ystod Wythnos Anabledd Dysgu ymddangosodd Ffrindiau Gigiau ar BBC Cymru News i rannu eu stori lwyddiannus ac ers hynny mae llawer o gyfleoedd wedi codi gan alluogi'r prosiect i barhau i feithrin perthynas â sefydliadau allweddol yn y sector anabledd dysgu.

Bellach mewn 5 o 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r prosiect cyfeillio hwn yn mynd o nerth i nerth. Ffurfiwyd 20 cyfeillgarwch Ffrindiau Gigiau gyda llawer mwy yn cofrestru ar wahanol gamau o'r broses baru.

Mae Ffrindiau Gigiau wedi treulio'r flwyddyn yn mwynhau cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon, dawnsio, gwyliau, theatr a llawer o fathau eraill o ddigwyddiadau y maent yn rhannu'r un diddordeb ynddynt.

Nid yn unig mae cyfeillgarwch wedi ffurfio fel cyfeillgarwch cyfaill gig 1:1 ond hefyd drwy eu cymdeithasu bywiog. Mae'r pethau ychwanegol dewisol hyn ar gael i bobl sy'n ymuno â'r prosiect fel ffordd o gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd, gwella hyder, gwybodaeth, profi lleoliadau neu ddigwyddiadau newydd mewn cymunedau lleol na fyddent wedi gallu eu cyrchu o'r blaen oherwydd y rhwystrau maent yn eu hwynebu.






**Yn Spiller's Records ar gyfer Diwrnod Siop Record gyda DJ Radio 1 Huw Stephens**

Mae'n anhygoel gweld y twf yn nhaith pawb a'r newid mewn hyder a phersonoliaethau drwy gyrchu gwir hapusrwydd gyda phobl o'r un anian lle gallant wirioneddol deimlo fel nhw eu hunain a lle mae ganddynt allfeydd i fynegi eu hunain gyda phobl nad ydynt yn cael eu talu i fod yno.

## Hanner Marathon Caerdydd

Ym mis Hydref 2019, cymerodd 17 o redwyr ran yn Hanner Marathon Caerdydd ac 1 yn Hanner Marathon Amsterdam i gefnogi Ffrindiau Gigiau ac fe wnaethant godi miloedd o bunnoedd ar gyfer y prosiect. Mae'r Hanner Marathon wedi cael ei symud o fis Hydref 2020 i fis Mawrth 2021 oherwydd Covid-19 ac rydym yn bwriadu cymryd rhan fel y gwnaethom y llynedd a cheisio gwneud hwn yn brif gyfle codi arian y flwyddyn.



# Bywyd Caru

LOVELIFE

Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union

Daeth ein prosiect Bywyd Caru i ben yn Awst 2019. Gweithiodd gyda phartneriaid ledled Ewrop i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar berthnasoedd a rhywioldeb gyda'r nod o gefnogi staff a gofalwyr teuluol. Hyfforddodd y prosiect ddau grŵp o hyfforddwyr o Pobl yn Gyntaf Caerdydd. Mae Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn parhau i gyflwyno rhannau o'r hyfforddiant a grëwyd ganddynt.

Cyflwynwyd hyfforddiant i dros 1000 o rieni, gweithwyr proffesiynol a chyfoedion ar draws 6 Gwlad Ewrop. Byddwn yn sicrhau bod yr adnoddau ar gael ar ein gwefan.








# Senedd Ieuenctid Cymru



SEFYDLIAD PARTNER
PARTNER ORGANISATION

Fel sefydliad partner, fe wnaethom gefnogi Anwen a Katie, y ddwy fenyw ifanc etholedig yn Senedd Ieuenctid Cymru. Mae'r pynciau sydd wedi'u trafod yn cynnwys Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm, taflu sbwriel, gwastraff plastig ac iechyd emosiynol a meddyliol.

Roedd Anwen yn rhan o'r Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig ac roedd Katie yn rhan o'r Pwyllgor Iechyd Emosiynol a Meddyliol. Cynhyrchodd y ddau bwyllgor adroddiadau.

Darparwyd llawer iawn o adborth gan aelodau anabl a grwpiau eraill o bobl amrywiol drwy gydol y cyfnod sydd wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod y rhaglen waith yn cynrychioli cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth.



Daw'r sesiwn 2 flynedd i ben ym mis Rhagfyr 2020 ac mae gwaith yn cael ei gynllunio ar werthuso sut y cynhaliwyd y sesiwn gyntaf.

# Gweithio Gyda'n Gilydd gyda Rhieni

Working Together with Parents Network
Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd â Rhieni

Esmée Fairbairn FOUNDATION


Daeth ein prosiect partneriaeth tair blynedd yn y DU i ben ym mis Awst 2019. Roedd yn gweithio i geisio gwella'r gefnogaeth i rieni ag anabledd dysgu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ers sawl blwyddyn rydym wedi lobïo am ganllawiau newydd. Roeddem yn falch bod adroddiad wedi gwneud sawl argymhelliad ar gyfer gwella.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda Prif Weinidog Cymru a'r grŵp rhieni ynghyd â grŵp arbenigol bord gron i weld sut y gellir darparu gwell cymorth. Mae cynlluniau bellach ar y gweill i Lywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau.

Mae'r rhwydwaith wedi parhau i gyfarfod ac mae wedi bod yn cael ei gynnal gan Vale People First. Rydym hefyd wedi sefydlu tudalen adnoddau ar ein gwefan ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu.



# Ein staff


Cyfathrebu
Kai Jones
Swyddog Cyfathrebu
Karen Warner
Rheolwr Cyfathrebu
Hyfforddiant a Digwyddiadau
Simon Rose
Rheolwr Hyfforddiant a Digwyddiadau
Inacia Rodrigues
Cydlynydd Digwyddiadau a Nawdd
Hawdd Ei Ddeall Cymru
Laura Griffiths
Swyddog Gwybodaeth Hygyrch
Rebecca Chan
Swyddog Gwybodaeth Hygyrch
(O 4 Mehefin 2019)
Sam Williams
Swyddog Gwybodaeth Hygyrch
(Hyd at 31 Mai 2019)
Zoe Richards
Prif Weithredwr
(O 17 Rhagfyr 2019)
Engage to Change
Angela Kenvyn
Rheolwr Engage to Change
(O 9 Ebrill 2019)
Samantha Williams
Swyddog Cyfathrebu Engage to Change
(O 17 Chwefror 2020)
Megan Evans
Swyddog Cyfathrebu Engage to Change
(Hyd at 31 Rhagfyr 2019)
Grace Krause
Swyddog Polisi
(O 6 Awst 2019)
Adnoddau Dynol a Chyllid
Ian Cullimore
Swyddog Cyllid
Zhanar Tabeyeva
Swyddog Cyllid
Joanne Moore
Rheolwr AD a Llywodraethu
Prosiectau
Lyndsey Richards
Rheolwr Prosiectau
(O 25 Mehefin 2019)
Kylie Smith
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau
Kai Jones
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau
Sam Williams
Cydlynydd Prosiect Gweithio gyda'n gilydd gyda Rhieni
(Hyd at 31 Mai 2019)
Tîm Cefnogi
Cheryl White
Gweinyddwr
Samantha David
Cynorthwy-ydd Gweinyddol
(O 11 Tach 2019)
Rhobat Bryn Jones
Gweinyddwr
(O 29 Gorffennaf 2019)
Samantha Jenkins
Glanhawr

# Ein Hymddiriedolwyr

Fe wnaethom adolygu ein trefniadau llywodraethu a gwneud newidiadau i strwythur a chyfnod swydd ymddiriedolwyr. Cymeradwywyd y newid hwn gan ein haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol ym mis Ebrill 2019.

| Cymuned Fuddiant Cynrychiolwyr Aelodau Llawn | Nifer y Seddi | Ymddiriedolwyr | Wedi'u Penodi neu Ymddiswyddo yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 -31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| Darparwyr Oedolion | 2 | Steve Cox, Perthyn<br>Mandy Evans, Mirus Wales | |
| Hunan-Eiriolaeth | 2 | Michael Allcock, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan<br>Dawn Gullis, Pobl yn Gyntaf Caerdydd | Penodwyd Tach 2019 |
| Gofalwyr Teuluol | 2 | Jacqui Caldwell, Conwy Connect<br>Swydd Wag | |
| Darparwyr Cymorth Teuluol | 2 | Denise Inger, SNAP Cymru<br>Alison Thomas, Grŵp Pobl | Ymddiswyddo Gorffennaf 2019<br>Penodwyd Tach 2019 |
| Cyflogaeth â Chefnogaeth | 1 | Lily Beyer, DFN Project SEARCH<br>Kathy Rivett, Elite Supported Employment Agency | Penodwyd Tach 2019<br>Ymddiswyddo Awst 2019 |
| Seddi Agored | Nifer y Seddi | | |
| Unigolyn â diddordeb | 5 | Phil Madden<br>Steve Barnard<br>Wayne Crocker<br>Laura White<br>Siân Owen | <br>Penodwyd Tach 2019<br>Penodwyd Tach 2019<br>Penodwyd Tach 2019 |


**Ymgynghorwyr**

Steve Beyer Penodwyd Ionawr 2019; Kathryrn Whitfield Penodwyd Chwefror 2020

**Aelodau** (Ebrill 2019 - Mawrth 2020)


| | Gogledd Cymru | Canolbarth/ Gorllewin Cymru | De Cymru | Tu allan i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| Llawn | 12 | 10 | 41 | 2 |
| Cyswllt | 16 | 24 | 59 | 12 |

# Ein harian



## Arian a dderbyniom eleni

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £297,600 (11.79%) |
| Prosiectau'r DU | £2,043,682 (80.96%) |
| Prosiectau Ewropeaidd | £45,350 (1.80%) |
| Hyfforddiant a Digwyddiadau | £30,015 (1.19%) |
| Ymgynghoriaeth, rhwydweithiau a gwasanaethau a gynhelir | £95,194 (3.77%) |
| Rhoddion | £10,592 (0.42%) |
| Llog banc | £1,992 (0.08%) |
| **Cyfanswm** | **£2,524,425 (100.00%)** |



## Arian a wariom eleni

| | |
|---|---|
| Staff a theithio | £436,014 17.87% |
| Grantiau i Bartneriaid Prosiectau'r DU | £1,821,316 (74.66%) |
| Grantiau i Bartneriaid Prosiectau Ewropeaidd | £44,475 (1.82%) |
| Cyrsiau a chynadleddau | £21,808 (0.89%) |
| Gofalu am ein adeilad | £40,654 (1.67%) |
| Digwyddiadau prosiect | £13,928 (0.57%) |
| Rhedeg y swyddfa | £31,512 (1.29%) |
| Costau llawrydd | £6,962 (0.29%) |
| Cyfieithu | £12,420 (0.51%) |
| TAW na ellir ei adennill | £1,860 (0.08%) |
| Ffioedd archwilio | £3,995 (0.16%) |
| Dibrisiant | £1,028 (0.04%) |
| Cyfarfodydd ymddireidolwyr | £3,352 (0.14%) |
| **Cyfanswm** | **£2,439,324 (100.00%)** |

## Canlyniad diwedd blwyddyn:

**Mae'r gwarged o £85,101 yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £85,083 a gwarged cyfyngedig o £18 cyn trosglwyddiadau.**

# Our year in numbers
# Ein blwyddyn mewn niferoedd

## Challenging and representing / Herio a chynrychioli

Managed 3 Cross Party Group on Disability meetings
Rheoli 3 Grŵp Trawsbleidiol ar gyfarfodydd Anabledd

Worked on 25 policy areas
Wedi gweithio ar 25 maes polisi

Supported 2 Welsh Youth Parliament Members
Cefnogi 2 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru

## Easy Read Wales / Hawdd Ei Ddeall Cymru

72 easy read documents
72 o ddogfennau hawdd eu deall

30 clients
30 o gleientiaid

## Training and events / Hyfforddiant a digwyddiadau

17 training courses
17 cwrs hyfforddi

190 delegates trained
190 o gynrychiolwyr wedi'u hyfforddi

290 people at Right Here annual conference in Llanrwst and Newport
290 o bobl yng nghynhadledd flynyddol Right Here yn Llanrwst a Chasnewydd

874 people across Wales took part in our training and events
Cymerodd 874 o bobl ledled Cymru ran yn ein hyfforddiant a'n digwyddiadau

## Informing / Hysbysu

30,969 website visits
30,969 o ymweliadau â'n gwefan

82,300 website pages visited
82,300 o ymweliadau i dudalennau'r wefan

1 coronavirus resources section created
1 adran adnoddau coronafeirws wedi'i chreu

6,648 Twitter followers
6,648 o ddilynwyr Twitter

3,755 Facebook likes
3,755 o bobl wedi hoffi ar Facebook

47 articles published on website
Cyhoeddi 47 erthygl ar y wefan

## Engage to Change

80 young people started paid employment
Dechreuodd 80 o bobl ifanc gyflogaeth â thâl

65 young people sustained employment
Fe wnaeth 65 o bobl ifanc gynnal cyflogaeth

53 young people started internships
Dechreuodd 53 o bobl ifanc interniaethau

## Gig Buddies / Ffrindiau Gigiau

20 Gig Buddy pairs matched
20 Pâr o Ffrindiau Gig wedi'u paru

8 Socials attended
8 Digwyddiad Cymdeithasol wedi'u mynychu

4 new areas launched: Bridgend, Merthyr Tydfil, RCT, Vale of Glamorgan
(5 new areas launched Nov 2020: Anglesey, Gwynedd, Conwy, Denbighshire, Flintshire, Wrexham)
4 ardal newydd wedi lansio: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, RhCT, Bro Morgannwg
(Lansiwyd 5 ardal newydd Tach 2020: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)